Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT/2859/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 26 Mehefin 2018

Annwyl Nick

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cymryd tystiolaeth gan fyrddau iechyd a Llywodraeth Cymru ar sefyllfa ariannol cyrff y GIG, a mynd ar drywydd y materion a godwyd yn fy adroddiad ym mis Gorffennaf 2017, Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

Er mwyn ategu gwaith craffu'r Pwyllgor, rwyf wedi diweddaru ffigurau adroddiad 2017 a hefyd wedi casglu rhagor o wybodaeth. Nodir y rhain yn yr Atodiadau i'r llythyr hwn.

Yn Atodiad 1, rwyf wedi diweddaru ffigurau'r gyllideb gyffredinol ar gyfer iechyd. Rwyf hefyd wedi nodi sefyllfa alldro ariannol 2017-18 i bob corff GIG, ac wedi nodi a ydynt wedi cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Yn Atodiad 2, ceir y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i gyflawni arbedion ariannol. Rwyf wedi diweddaru'r ffigurau ar gyfer arbedion yn fy adroddiad yn 2017. Rwyf hefyd wedi cynnwys crynodeb o negeseuon allweddol cylch diweddaraf fy ngwaith Asesu Strwythuredig yng nghyrff y GIG, a oedd yn cynnwys gwaith i gyflawni'r cynlluniau arbedion. Yn sgil gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ar ôl i'r Pwyllgor glywed tystiolaeth ym mis Gorffennaf 2017, mae Aelodau wedi mynegi diddordeb mewn materion ynghylch effeithlonrwydd, yr adolygiadau o lywodraethu ariannol a gynhaliwyd yn y pedwar bwrdd iechyd sy'n destun lefelau ymyrraeth uwch, a'r adolygiad cwbl gynhwysfawr yn BIP Hywel Dda. Mae fy niweddariad yn nodi i ba raddau y mae'r materion a godwyd gan yr adolygiadau o lywodraethu ariannol yn cyd-fynd â chanfyddiadau fy ngwaith archwilio innau.

Yn olaf, nodir yn Atodiad 3 gynnydd Llywodraeth Cymru o ran argymhellion fy adroddiad yn 2017, ochr yn ochr â'm sylwadau innau.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru.

Yn gywir


**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

## Atodiad 1: Y sefyllfa ariannol

### Y gyllideb refeniw iechyd dros amser

Ceir yn Ffigur 1 y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb refeniw iechyd dros amser. Mae'n dangos bod y duedd ddiweddar o gynnydd mewn gwariant mewn termau real yn parhau. Roedd fy adroddiad yn 2017 yn tynnu sylw at batrwm lle'r oedd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i'r GIG. Gwelwyd y patrwm hwn yn parhau unwaith eto yn 2017-18, gydag £85 miliwn yn rhagor yn cael ei ddyrannu i iechyd o gronfeydd yn yr ail gyllideb atodol. Bwriad y cyllid ychwanegol oedd helpu i wella perfformiad[1] ynghyd â rheoli pwysau'r gaeaf a diffygion annisgwyl yn BIP Hywel Dda a BIP Betsi Cadwaladr[2].

#### Ffigur 1: newidiadau mewn gwariant refeniw iechyd mewn termau real o 2010-11




Sylwer: Mae'r siart hwn yn dangos newid mewn gwariant refeniw iechyd o linell sylfaen 2010-11 mewn termau real. Felly, er enghraifft, yn 2017-18 roedd y gwariant 10% yn uwch nag yn 2010-11.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllidebau Llywodraeth Cymru

---

[1] Roedd y cyllid ychwanegol ar gyfer perfformiad yn amodol ar gyrraedd targedau perfformiad penodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi adennill cyllid oddi wrth dri bwrdd iechyd – BIP Abertawe Bro Morgannwg, BIP Betsi Cadwaladr a BIP Aneurin Bevan – am fethu â chyrraedd y targedau hynny.

[2] Ni chafodd y cyllid a ychwanegwyd at y gyllideb refeniw iechyd ar gyfer diffygion annisgwyl yn BIP Hywel Dda a BIP Betsi Cadwaladr ei drosglwyddo i'r byrddau iechyd hynny. Er hynny, roedd yn angenrheidiol er mwyn mantoli'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Cydymffurfiaeth cyrff y GIG â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

Cyflwynodd y Ddeddf ddwy ddyletswydd newydd i'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru:

a) mantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd – yn disodli'r gofyniad blaenorol i fantoli'r gyllideb bob blwyddyn;

b) paratoi cynllun integredig tair blynedd i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru wedi hynny ganllawiau polisi yn ei gwneud yn ofynnol i'r tair ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru hefyd gydymffurfio â'r ddwy ddyletswydd a amlinellwyd yn y Ddeddf.

Mae Ffigur 2 yn dangos bod pedwar bwrdd iechyd wedi methu â chyflawni eu dyletswydd ariannol gyntaf yn 2017-18. Roedd yr un pedwar bwrdd iechyd wedi methu â chyflawni'r ddyletswydd yn 2016-17 hefyd. Mae'r byrddau iechyd hyn yn wynebu cryn her i adfer y sefyllfa a chyflawni eu dyletswydd yn y blynyddoedd sydd i ddod. Nodais yn fy adroddiad yn 2017 y byddai angen i'r byrddau iechyd hynny, er mwyn cyflawni'r ddyletswydd ar 31 Mawrth 2018, fod wedi tanwario yn 2017-18 swm cyfwerth â'u gorwariant net yn 2015-16 ac yn 2016-17. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd diffygion yn ystod y flwyddyn BIP Hywel Dda a BIP Betsi Cadwaladr yn fwy nag yn 2016-17. Ar ddiwedd 2017-18 roedd diffygion BIP Caerdydd a'r Fro a BIP Abertawe Bro Morgannwg yn llai nag yn 2016-17.

### Ffigur 2: cyllid y byrddau iechyd dros y tair blynedd o 2015-16 i 2017-18

| Sefydliad GIG | Gwarged a gadwyd yn ôl (Diffyg) | Gwarged / (Diffyg) | Gwarged / (Diffyg) | Gwarged Cronedig / (Diffyg) | A gyflawnodd y corff ei ddyletswydd o dan y Ddeddf? |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 i 2017-18 | |
| **Byrddau Iechyd** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | |
| PABM | 86 | (39,316) | (32,417) | (71,647) | Naddo |
| Aneurin Bevan | 214 | 49 | 246 | 509 | Do |
| PBC | (19,525) | (29,784) | (38,838) | (88,147) | Naddo |
| Caerdydd a'r Fro | 68 | (29,243) | (26,853) | (56,028) | Naddo |
| Cwm Taf | 22 | 18 | 23 | 63 | Do |
| Hywel Dda | (31,199) | (49,613) | (69,430) | (150,242) | Naddo |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 40 | 85 | 96 | 221 | Do |
| **Ymddiriedolaethau'r GIG** | | | | | |
| ICC | 17 | 16 | 28 | 61 | Do |
| Felindre | 40 | 35 | 49 | 124 | Do |
| YGAC | 49 | 44 | 70 | 163 | Do |
| Cyfanswm | (50,188) | (147,709) | (167,026) | (364,923) | |

Ffynhonnell: Cyfrifon archwiliedig cyrff y GIG

Mae'r diffyg yn ystod y flwyddyn ar draws y GIG, fel y nodir yn y cyfrifon, wedi tyfu eto eleni i £167 miliwn. Dylid nodi bod BIP Aneurin Bevan a BIP Cwm Taf wedi cyflawni gwargedion sydd £2.4 miliwn a £3 miliwn yn y drefn honno yn uwch na'r rhai a ddangosir yn y cyfrifon. Er hynny, fe wnaeth y ddau fwrdd iechyd 'frocera' y gwargedion hynny yn ôl i Lywodraeth Cymru a thrwy hynny leihau eu terfynau gwario (ac felly eu gwargedion cofnodedig) ar gyfer 2017-18 ac ychwanegu'r symiau cyfatebol at eu terfynau gwario ar gyfer 2018-19. Pe na bai'r terfynau gwario wedi eu haddasu, byddai'r diffyg cyffredinol ar draws y GIG ar gyfer 2017-18 wedi bod yn £162 miliwn.

Mae'r diffyg tair blynedd cronedig, fel y nodir yn y cyfrifon wedi'u harchwilio, wedi codi o £253 miliwn i £365 miliwn. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys diffyg 2014-15. Gan gynnwys y flwyddyn honno, cyfanswm y diffyg cronedig ar draws y GIG yw £420 miliwn ers dechrau'r Ddeddf.

Ar gyfer 2017-18, roedd chwech o'r deg corff GIG wedi cytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig. Roedd y pedwar oedd heb gynllun tair blynedd y cytunwyd arno hefyd wedi methu â chyflawni'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd. Roedd BIP Hywel Dda; BIP Betsi Cadwaladr; BIP Caerdydd a'r Fro; a BIP Abertawe Bro Morgannwg i gyd yn gweithio'n unol â chynllun blwyddyn yn 2017-18.

Rwyf wedi cyhoeddi adroddiad sylweddol ar gyfrifon y pedwar bwrdd iechyd a fethodd â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, ac mae gan y pedwar farn amodol ar reoleidd-dra ar eu cyfrifon. Yn fy adroddiad sylweddol ar BIP Hywel Dda nodais gyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Mai fod ffactorau'n ymwneud â demograffeg a graddfa a oedd yn cyfrannu at sefyllfa ariannol y bwrdd iechyd y tu hwnt i'w reolaeth. Dangoswyd hynny mewn adolygiad cwbl gynhwysfawr y comisiynodd Llywodraeth Cymru Deloitte i'w gynnal. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet gyllid rheolaidd blynyddol ychwanegol o £27 miliwn i adlewyrchu'r ffactorau hyn o 2018-19. Mae angen deall sefyllfa ariannol y bwrdd iechyd yng nghyd-destun y cyhoeddiad hwn.

## Atodiad 2: Cynllunio a chyflawni arbedion

Roedd fy ngwaith Asesu Strwythuredig yn ystod 2017-18 yn cynnwys ystyried sut y mae cyrff y GIG yn cynllunio ac yn cyflawni arbedion. Er i mi nodi rhai materion penodol mewn cyrff unigol, mae rhai themâu allweddol y credaf y byddai'n fuddiol eu rhannu â'r Pwyllgor. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru eisoes wedi rhannu'r sylwadau hyn â Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru ac â Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio holl gyrff GIG Cymru. Dyma'r themâu allweddol:

- Mae'r hanes blaenorol o ran cyflawni arbedion yn dda ond nid yw'r dulliau o wneud arbedion yn mynd i'r afael erbyn hyn â'r bwlch rhwng adnoddau ariannol a chyfanswm y gwariant.
- At ei gilydd, mae cyrff y GIG yn gwneud arbedion drwy gynlluniau byrdymor, yn hytrach na sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy.
- Pan geir pwysau ar gostau yn ystod y flwyddyn, mae tuedd i droi at fesurau byrdymor i reoli costau ac arbedion afreolaidd.
- Roedd yn gyffredin gweld cyrff y GIG yn defnyddio targed arbedion unffurf ar gyfer yr holl gyfarwyddiaethau, yn hytrach nag arfer dull graddedig yn seiliedig ar ddadansoddi ble y mae'r posibiliadau mwyaf o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd.
- Mae'r graddau y mae cynlluniau arbedion yn cael eu hintegreiddio â Chynlluniau Tymor Canolig Integredig neu gynlluniau gweithredu blynyddol yn amrywiol iawn. Mae byrddau iechyd sy'n destun ymyriadau wedi'u targedu'n llai tebygol o fod â chynlluniau arbedion integredig.
- Er bod cymorth da'n cael ei roi at ei gilydd gan adrannau cyllid i helpu'r sefydliad yn ehangach i gynllunio a chyflawni arbedion, roedd y cymorth gan adrannau 'galluogi corfforaethol' eraill megis TG, Adnoddau Dynol a swyddfeydd rheoli rhaglenni yn fwy amrywiol.
- Ar y cyfan, mae'r trefniadau ar gyfer monitro gwaith i gyflawni arbedion ariannol yng nghyrff y GIG yn dda, ond mae lefel y manylder mewn adroddiadau a gyflwynir i fyrddau a phwyllgorau'n fwy amrywiol.

Wrth gyflwyno'r canfyddiadau hyn i Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru, codasom gwestiynau hefyd i'w hystyried ar lefel genedlaethol, ac efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried y rhain yn ystod ei ymchwiliad:

- Beth y gellir ei wneud yn genedlaethol i annog dadfuddsoddi mewn meysydd lle nad oes fawr o werth amlwg?
- Os oes angen i fyrddau wneud penderfyniadau anodd ynghylch fforddiadwyedd modelau gwasanaethau sydd eisoes ar waith, beth fyddai'n eu hannog i ddefnyddio dull sy'n rheoli'r risg?

- Pa ddulliau gweithredu cenedlaethol fyddai'n helpu i annog pwyslais mwy cyson ar werth a chynhyrchiant wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau?
- A ellid gosod targedau arbedion 24 neu 36 mis ar gyfer cynlluniau trawsnewidiol i annog pwyslais mwy hirdymor?
- A yw hyblygrwydd ariannol tair blynedd yn gwneud yn fawr o'r cyfle ar gyfer cynaliadwyedd ariannol tymor hwy?

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Deloitte i gynnal adolygiadau ar lywodraethu ariannol yn y pedwar bwrdd iechyd nad ydynt wedi cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Rhoddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r negeseuon allweddol yn ei llythyr diweddaru ar 26 Chwefror 2018. Dylid nodi mai'r un yw'r negeseuon yn yr adroddiadau ar lywodraethu ariannol â'm negeseuon innau i'r byrddau iechyd yn ddiweddar drwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddiweddariadau gan y byrddau iechyd perthnasol ynghylch y camau a gymerwyd ganddynt yn sgil adolygiadau Deloitte. Yn yr un modd, mae wedi gofyn am fanylion am y camau a gymerwyd yn sgil fy ngwaith Asesu Strwythuredig, yn benodol o ran cynllunio arbedion a chynllunio/rheoli ariannol yn gyffredinol.


Roedd fy adroddiad yn 2017 yn cynnwys dadansoddiadau manwl o batrymau arbedion yng nghyrff y GIG. Rwyf wedi diweddaru'r siartiau (isod). At ei gilydd, roedd swm yr arbedion wedi codi o £137 miliwn yn 2016-17 i £169 miliwn yn 2017-18. Roedd llai o ddibyniaeth ar arbedion afreolaidd. Er hynny, mae patrwm yr arbedion yn hwyr yn y flwyddyn yn awgrymu bod problem o hyd o ran pwyslais byrdymor y cynlluniau arbedion:

- Cynyddodd cyfran y bwlch ariannu a bontiwyd drwy arbedion o 22% i 33% er bod angen pwyll wrth ymdrin â'r ffigurau gwaelodol (Ffigur 3)
- Cwympodd cyfran yr arbedion afreolaidd[3] o 34% i 29% (Ffigur 4)
- Cynyddodd cyfran yr arbedion a gyflawnwyd yn hwyr yn y flwyddyn, gyda 36.5% o gyfanswm yr arbedion yn cael eu cyflawni yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol (i fyny o 32% yn y chwarter cyfatebol yn 2016-17). (Ffigur 5)
- Er bod cyfran gyffredinol y gwariant cyfalaf yn y mis olaf (36%) yn is nag yn 2016-17 (46%), fe allai'r patrwm hwn o wariant uchel ym mis olaf y flwyddyn, yn fy marn i, beryglu gwerth am arian o hyd (Ffigur 6)

---

[3] Arbedion rheolaidd yw'r arbedion hirdymor sy'n dileu costau'n barhaol, ac mae arbedion afreolaidd yn rhai nad ydynt yn cynnig budd mewn blynyddoedd i ddod. Un enghraifft o arbedion afreolaidd yw gohirio prosesau caffael neu recriwtio angenrheidiol tan y flwyddyn ariannol nesaf.


Ffigur 3: cyfran y bwlch ariannu a bontiwyd drwy arbedion, 2011-12 i 2017-18




Sylwer: Daw'r ffigurau hyn o'r ffurflenni a gyflwynwyd gan gyrff y GIG i Lywodraeth Cymru ac maent yn cyd-fynd â'r ffigurau a gyflwynwyd yn ein hadroddiad yn 2017. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn ddiweddar ei bod o'r farn nad yw cyfrifiadau cyrff y GIG o'u bwlch ariannu wedi bod yn gyson a bod angen pwyll felly wrth ymdrin â'r ffigurau.


Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro cyrff y GIG

Ffigur 4: cyfran yr arbedion a gyflawnwyd sy'n afreolaidd, 2011-12 i 2017-18





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro cyrff y GIG

Ffigur 5: canran yr arbedion blynyddol a gyflawnwyd ym mhob chwarter ar draws GIG Cymru (2011-12 i 2017-18)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro cyrff y GIG

Ffigur 6: Gwariant cyfalaf misol




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro cyrff y GIG

## Atodiad 3: Ymateb Llywodraeth Cymru i'm hargymhellion

Gwneuthum ddau argymhelliad yn fy adroddiad yn 2017, a nodais hefyd ddau faes cyffredinol i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio arnynt. Derbyniodd Llywodraeth Cymru fy argymhelliad cyntaf yn rhannol a derbyniodd yr ail. Nodir safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru o ran fy argymhellion a'r ddau faes cyffredinol isod. Bydd cyfle i'r Pwyllgor holi Llywodraeth Cymru am y diweddariad yn y sesiwn dystiolaeth ar 16 Gorffennaf.

### Argymhelliad 1

**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n:**

a) **nodi'n gliriach yn ei chanllawiau sut y dylai cyrff y GIG sydd â diffyg, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, adfer eu sefyllfa ariannol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd mewn blynyddoedd i ddod; ac yn**

b) **gwella ei ffurflenni monitro drwy gynnwys y sefyllfa yn erbyn y cyfnodau treigl o dair blynedd, nid dim ond y darlun blynyddol.**

### *Ymateb Llywodraeth Cymru (a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2017):*

**Derbyn yn Rhannol**

Nid ydym yn derbyn bod angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o arweiniad i gyrff y GIG ynghylch y camau y mae angen iddynt eu cymryd i adfer unrhyw ddiffyg er mwyn cyflawni'r ddyletswydd mewn blynyddoedd i ddod. Rhoddwyd manylion ynghylch gweithredu'r ddyletswydd yn y Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf, ac mae hefyd wedi'i nodi yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 054 – Dyletswyddau Ariannol Statudol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Er hynny, rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod holl aelodau newydd byrddau'n deall yn iawn beth yw dyletswyddau'r sefydliad, ac ymdrinnir â'r gofyniad hwn yn y Rhaglen Ymsefydlu i Aelodau Annibynnol.

Derbyniwn yr argymhelliad fod angen i'n proses fonitro reolaidd gynnwys darlun tair blynedd yn ogystal â'r sefyllfa flynyddol i'r sefydliadau hynny sy'n gweithio'n unol â chynlluniau tair blynedd cymeradwy. Byddwn yn ystyried yr ychwanegiadau y mae angen i ni eu gwneud i'r broses fonitro i gynnwys yr agwedd hon. Gwneir hyn erbyn 31 Hydref 2018.

### *Diweddariad Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018:*

**Rhaglen Ymsefydlu i Aelodau Annibynnol**

Ar sail sesiwn ddatblygu lwyddiannus ar Gyllid a Llywodraethu a drefnwyd i Aelodau Annibynnol gan yr Academi Gyllid ym mis Mehefin 2016, mae swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Academi Wales i ddatblygu:

- Canllaw Ymsefydlu i Aelodau Annibynnol o'r Byrddau
- Rhaglen Ymsefydlu i Aelodau Annibynnol o'r Byrddau

Roedd Modiwl 2 y Rhaglen Ymsefydlu, "Cynllunio, Adnoddau a Chyflawni", yn cynnwys sesiwn benodol ar Ddyletswyddau Ariannol GIG Cymru, gan gynnwys y ddyletswydd gynllunio a'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb. Roedd Modiwl 2 hefyd yn cynnwys cyflwyniadau gan Gyfarwyddwr Cyllid a Chyfarwyddwr Cynllunio'r GIG, yn ogystal â chyflwyniadau gan Swyddfa Archwilio Cymru. I gynorthwyo Aelodau Annibynnol yn eu gwaith craffu ac adolygu ar y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig drafft a oedd i'w cyflwyno yng nghyfarfodydd y Byrddau ym mis Ionawr, cynhaliwyd Modiwl 2 yn fwriadol ar 16 Ionawr 2018.

Mae Rhaglen Ymsefydlu Aelodau Annibynnol Academi Wales yn ategu rhaglenni ymsefydlu a datblygu lleol y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

**Ffurflenni Monitro**

Cynhaliwyd trafodaethau â staff cyllid y GIG ym mis Hydref 2017 ynghylch y posibiliad o gyflwyno tablau monitro tair blynedd. Ar hyn o bryd, nid oes gofynion penodol o ran tablau monitro tair blynedd yn yr arfaeth ar gyfer y sefydliadau hynny a chanddynt gynlluniau tymor canolig cymeradwy. Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd gynnal Adolygiad Canol Blwyddyn o weithrediad y cynllun, gan gyfeirio'n benodol at ragolwg ar oblygiadau, canlyniadau a newidiadau posib i flynyddoedd 2 a 3 y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru'n adolygu cynnydd yn ffurfiol yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd ddwywaith y flwyddyn gyda phob sefydliad.

## Argymhelliad 2

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gwblhau'r adolygiad o'i fformiwla gyllido ar gyfer byrddau iechyd yn fuan er mwyn sicrhau bod amrywiadau mewn lefelau**

**cyllido yn adlewyrchu gwahaniaethau yn anghenion iechyd poblogaethau a phenderfynyddion eraill costau gofal iechyd yn briodol.**

## *Ymateb Llywodraeth Cymru (a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2017):*

**Derbyn**

Cwblhawyd Cam 1 yr adolygiad o ddyrannu adnoddau o fewn yr elfen Trefn Ariannol yn Law yn Llaw at Iechyd. Bwriadwn fwrw ymlaen â Cham 2 maes o law. Mae cynigion ac amserlen y prosiect wrthi'n cael eu datblygu a chânt eu rhannu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

*Diweddariad Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018:*

Mae cynigion wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer Cam 2 yr Adolygiad o Ddyrannu Adnoddau. Bydd y gwaith yn adeiladu ar sail arbenigedd a gwersi o Gam 1, canfyddiadau'r Adolygiad Cwbl Gynhwysfawr yn ddiweddar ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, dulliau o weithredu fformiwlâu cyllido mewn gwledydd cymharol, megis Seland Newydd, yr Alban a Lloegr, a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru hefyd.

Er enghraifft, cyd-destun yr Adolygiad Cwbl Gynhwysfawr oedd bod cyfluniad y gwasanaethau yn Hywel Dda yn creu costau ychwanegol i'r Bwrdd, ond nodwyd yn y canfyddiadau allweddol mai nodweddion y boblogaeth, hynny yw y ddemograffeg, yn hytrach na chyfluniad y gwasanaethau oedd prif ysgogiad y costau ychwanegol. Roedd hynny'n awgrymu, i'w brofi yn y gwaith adolygu, efallai nad yw'r fformiwla ar hyn o bryd yn cydnabod ac yn rhoi pwys digonol ar anghenion oedran/rhyw a'r gromlin gostau. Ac ystyried y ddemograffeg sy'n newid, a'r newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth, o ran maint a chymysgedd oedran/rhyw, bydd hyn yn elfen hollbwysig o'r adolygiad a datblygiad y fformiwla.

## Meysydd cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru

a) mynd i'r afael â'r cylch cyllido lle mae symiau sylweddol o arian yn cael eu rhoi i gyrff y GIG tua diwedd y flwyddyn ariannol; yn ein barn ni, nid yw parhau â'r patrwm hwn yn gynaliadwy; ac

b) achub ar y cyfle a gynigir gan yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal, y strategaeth newydd sy'n cael ei datblygu ar gyfer y GIG a chynlluniau hirdymor lleol sy'n cael eu datblygu gan gyrff y GIG i roi cyfeiriad wedi'i ddiweddaru a chliriach i wasanaethau'r GIG, yn arbennig y newid i wasanaethau mwy rhanbarthol a chenedlaethol.

*Ymateb Llywodraeth Cymru:*

a. Mae Llywodraeth Cymru wedi symud oddi wrth yr arfer o roi symiau sylweddol o arian yn hwyr yn y flwyddyn. O ran 2017-18, derbyniodd pob sefydliad GIG godiad o 2% yn eu cyllid i ymdrin â phwysau chwyddiant a phwysau eraill ar gostau a chadarnhawyd hynny cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Rhoddwyd rhagor o gyllid i BIP Aneurin Bevan a BIP Cwm Taf ym mis Mehefin 2017 er mwyn cefnogi eu cynlluniau tymor canolig cymeradwy. Wedi hynny, yr unig gyllid ychwanegol a ddarparwyd i gyrff y GIG oedd cyllid at ddibenion blaenoriaethau penodol. Roedd hyn yn cynnwys £50 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017 i wella amseroedd aros, a £10 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 i gydnabod pwysau eithafol y gaeaf ar y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.

b. Cyhoeddwyd *Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* ar 11 Mehefin. Mae'n amlinellu ein hymateb i'r Adolygiad Seneddol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, ac yn nodi camau penodol y

byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu cynllun clinigol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd arbenigol gan amlinellu ein dull strategol o ddarparu gwasanaethau iechyd diogel, o safon uchel, sy'n bodloni anghenion pobl ledled Cymru erbyn diwedd 2019.